

Taflen ar Gyfer Gweithwyr Proffesiynol

N.E.W. MST Cymru

## BETH YW THERAPI AML-SYSTEMIG (THAS)

Mae Therapi Aml-Systemig (THAS) yn ymyrraeth ddwys gymunedol i deuluoedd sy'n targedu'r amrywiol achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc a fyddai, heb ymyrraeth, mewn risg o gael eu rhoi yng ngofal yr Awdurdod Lleol, mewn risg o warchodaeth neu Ofal Diogel.

Mae THAS yn mabwysiadu dull economaidd-gymdeithasol o ddeall ymddygiad problematig mewn pobl ifanc. Mae gan yr unigolyn rwydwaith o systemau rhyng-gysylltiedig o'u hamgylch sy'n cynnwys yr unigolyn ifanc eu hunain, eu teulu, yn ogystal â'u grŵp cyfoed, yr ysgol a'r gymdogaeth ehangach.

Mewn THAS, gwelir rhieni a darparwyr gofal fel y prif ysgogwr newid yn yr unigolyn ifanc. Felly prif nod THAS yw grymuso'r teulu i gymryd cyfrifoldeb am wneud a chynnal newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad yr unigolyn ifanc.

## PRIF NODAU THAS

- Cadw teuluoedd gyda'i gilydd pan fo'r unigolyn ifanc mewn perygl o fynd i ofal, gwarchodaeth neu leoliad diogel.
- I'r unigolyn ifanc gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r cyhuddiadau yn erbyn yr unigolyn ifanc.

(Mwy o wybodaeth ac ymchwil ar gael yn www.mstuk.org)

## I BWY MAE THAS?

### MEINI PRAWF CYNHWYSOL

- Pobl ifanc mewn peryg o gael lleoliad (gofal neu warchodaeth) oherwydd eu hymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cam-drin sylweddau.
- Pobl ifanc sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid (System Troseddu Ieuenctid).
- Pobl ifanc rhwng 11 a 17.

## MEINI PRAWF GWAHARDDOL

- Pobl ifanc sy'n byw yn annibynnol.
- Unigolyn ifanc sy'n dangos ymddygiad hunan-laddol, llofruddiol neu seicotig.
- Troseddau rhyw heb ymddygiad gwrthgymdeithasol arall.
- Pobl ifanc sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) ble asesir ei fod yn gymedrol i ddwys.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:-
Newmstcymru@flintshire.gov.uk neu ffoniwch 01978-295540

GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
MST Multisystemic Therapy UK & Ireland
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
wrexham county borough council wrecsam

